CYNHYRCHWYR CIG OEN AC EIDION CYMRU CYF
CYLCH*lythyr*
HAF 2025

# GWAITH CASGLU DATA AMU WLBP YN ENNILL GWOBR FAWR

Mae gwaith arloesol Cynhyrchwyr Cig Oen ac Eidion (WLBP) i fesur y defnydd gwrthficrobaidd (AMU) ar ffermydd Cymru wedi cael ei gydnabod yn Nigwyddiad a Gwobrau Rhannu Dysg Antibiotic Guardian 2024/25.

Mae Gwobrau Antibiotic Guardian yn hyrwyddo sefydliadau ac unigolion sydd wedi dangos cyflawniadau wrth fynd i'r afael ag ymwrthedd gwrthficrobaidd ar lefel leol, ranbarthol, neu genedlaethol.

Derbyniodd WLBP y wobr categori '**Arloesedd a Thechnoleg**' am ei weithgareddau fel partner yn Arwain DGC – rhaglen a ariennir gan Lywodraeth Cymru i atal ymwrthedd i wrthfiotigau mewn anifeiliaid a'r amgylchedd drwy gefnogi ffermwyr a milfeddygon drwy benderfyniadau sy'n seiliedig ar ddata, technolegau arloesol, ac arferion gorau.

Dywedodd Rheolwr Cyffredinol WLBP, Iestyn Tudur-Jones:


**"Rydym wrth ein bodd ac yn hynod falch bod ymrwymiad ac ymroddiad ffermwyr Cymru sy'n gweithio gyda'u milfeddygon i ddangos tystiolaeth o'u defnydd o wrthfiotigau drwy ddefnyddio technoleg wedi cael ei gydnabod ymhlith ceisiadau mor gryf o'r sectorau anifeiliaid a dynol – mae'r ffermwyr sy'n aelodau o Gynhyrchwyr Cig Oen ac Eidion Cymru trwy'r cynllun Gwarant Fferm Da Byw Cymru, gan weithio ar y cyd â'u milfeddygon, yn arwain y DU ac Ewrop o ran dangos tystiolaeth o ddefnyddio gwrthfiotigau yn gyfrifol.**

**Nid yn unig mae hyn yn dangos y gwaith maen nhw wedi'i wneud i herio ymwrthedd gwrthficrobaidd mewn da byw a'r amgylchedd yng Nghymru, ond mae'n gwneud cyfraniad mawr i ddangos tystiolaeth ac ategu cymwysterau cynhyrchu ein sector da byw yng Nghymru. Mae'n ymdrech tîm go iawn – gyda ffermwyr yn cymryd cyfrifoldeb ac yn cael eu cefnogi gan bartneriaid yn y diwydiant a'r llywodraeth."**

Mae ffermwyr Cymru wedi croesawu dull gwirfoddol WLBP, y credir ei fod wedi arwain at y set ddata annibynnol fwyaf o'i bath yn y DU.

Mae gwobr Antibiotic Guardian yn dilyn cyhoeddi trydydd Adroddiad Defnydd Gwrthficrobaidd WLBP, crynodeb cynhwysfawr o Ddefnydd Gwrthficrobaidd ar gyfer 2023. Mae'r Adroddiad yn cynnwys data ar 6,060 o fentrau cig eidion, defaid, a llaeth ledled Cymru, gan gwmpasu 1 Ionawr i 31 Rhagfyr, 2023.

Cafodd Adroddiad Defnydd Gwrthficrobaidd WLBP 2023 ei gomisiynu gan WLBP a'i gynnal yn annibynnol gan




SCAN ME

ADRODDIAD AMU 2023

https://wlbp.co.uk/cy/wlbp-annual-amu-reports/2023

ymchwilwyr yn Ysgol Filfeddygol Bryste, Prifysgol Bryste, ac mae'n cynnig golwg werthfawr ar sut mae sectorau cig eidion, defaid a llaeth Cymru yn ymateb i risgiau sy'n dod i'r amlwg yn sgil ymwrthedd gwrthficrobaidd. Mae'r adroddiad hefyd yn mynd i'r afael â'r pwysau o gynnal effeithiolrwydd gwrthficrobaidd trwy ddefnydd cyfrifol a llai.


Mae Adroddiad 2023 yn datgelu bod 6060 o gyfrifiadau wedi'u cwblhau gan ffermwyr, sy'n gynnydd mewn cyfrifiadau o'i gymharu â ffigurau 2022. Ers cyhoeddi adroddiad WLBP ar gyfer 2021, bu cynnydd sylweddol yn nifer y mentrau cig eidion, defaid a llaeth sy'n defnyddio'r Gyfrifiannell Defnydd Gwrthficrobaidd, gyda chynnydd o 160%, 135% a 100% yn y sectorau yn eu trefn.

Dywedodd Iestyn,

**"Yn WLBP, rydym yn cydnabod pwysigrwydd cyd-ddylunio safonau gyda'n haelodau a rhanddeiliaid y diwydiant. Mae'r trydydd adroddiad hwn ar Ddefnydd Gwrthficrobaidd yng Nghymru gan WLBP wedi'i ategu gan gydweithrediad rhwng ffermwyr, milfeddygon, y llywodraeth a'r gadwyn gyflenwi."**

Hefyd, yn Adroddiad 2023 mae adrannau newydd a grëwyd gan ddefnyddio'r Gyfrifiannell Defnydd Gwrthficrobaidd, sy'n manylu ar amrywiadau prynu Defnydd Gwrthficrobaidd o fis i fis wedi'u categoreiddio yn ôl y math o fenter a'r llwybr defnydd.

**"Trwy gwblhau'r broses hon, gall ffermwyr hefyd lywio eu data i fodloni unrhyw ofynion cadwyn gyflenwi a allai ofyn am wybodaeth o'r fath. Mae'r system hon yn caniatáu i'r ffermwr gwblhau'r dasg unwaith ond defnyddio a rhannu eu data o dan eu rheolaeth mor aml ag y dymunant wneud hynny."**




# Atodiadau Organig

THE WELSH ORGANIC SCHEME GB-ORG-13

'I'r Holl Gynhyrchwyr Organig'

Mae'r Atodiadau i Safon Cynllun Organig Cymru yn cael eu hadolygu a'u diwygio ar hyn o bryd– bydd copïau wedi'u diweddaru'n cael eu hanfon at y Cynhyrchwyr pan fyddant ar gael.

A wyddoch chi mai'r Cynllun Organig Cymreig yw'r ardystiwr ffermwyr organig mwyaf yng Nghymru? Gallwn ni gynnig arolygiadau ar y cyd ar gyfer prosesu organig, FAWL, a Red Tractor Dairy. Os ydych chi'n ystyried dechrau cynhyrchu'n organig, neu os hoffech newid eich ardystiad o gorff rheoli arall, cysylltwch â'n tîm ardystio yn y swyddfa neu dewch i'n gweld ni yn Sioe Frenhinol Cymru yn yr adeilad WAOS ger y prif gylch.

CYNLLUN ORGANIG CYMREIG - PF-ORG-13

## Rheol Newydd ar Wenwyn Llygod – Gwnewch yn siŵr eich bod yn cydymffurfio o fis Ionawr 2026:

O 1 Ionawr 2026 ymlaen, bydd angen i ffermwyr ar draws Cymru a'r DU cyfan gwblhau cwrs cydnabyddedig a meddu ar dystysgrif cyn y cânt brynu neu ddefnyddio gwenwyn llygod o gryfder proffesiynol. Mae'r newid yn rhan o ddiweddariad i'r rheolau stiwardiaeth a gyflwynwyd gan yr Ymgyrch dros Ddefnydd Cyfrifol o Wenwyn Llygod (CRRU), gyda'r nod o annog arferion cynaliadwy o reoli plâu. Ar ôl 1 Ionawr 2026, ni fydd bod yn aelod o gynllun sicrwydd yn ddigon i'ch gwneud yn gymwys i brynu cynnyrch gwenwyn llygod. Mae'r Safon Cynllun FAWL yn cael ei adolygu a'i ddiwygio ar hyn o bryd – bydd copïau wedi'u diweddaru ar gael i Gynhyrchwyr ar ein gwefan maes o law.

Mae rhagor o wybodaeth a chanllawiau i'w cael ar https://www.thinkwildlife.org/, ac mae cyrsiau ar gael a gefnogir gan Cyswllt Ffermio a darparwyr eraill.

THINK WILDLIFE
Campaign for Responsible Rodenticide Use

# Diweddariad gan yr Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd

Mae'r Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd (NFCU) yn rhan o'r Asiantaeth Safonau Bwyd (FSA) sy'n ymwneud yn benodol â gorfodi'r gyfraith. Mae'r uned yn arwain ar droseddau bwyd yn Nghymru, Lloegr, a Gogledd Iwerddon.

Sefydlwyd yr Uned yn 2015 yn sgil arolwg o'r digwyddiad cig ceffyl yn 2013. Gwaith yr uned yw diogelu cwsmeriaid a'r diwydiant bwyd rhag troseddau bwyd o fewn y gadwyn gyflenwi.

Rydym ni'n diffinio troseddau bwyd fel twyll difrifol a throseddau cysylltiedig sy'n digwydd o fewn cadwynau cyflenwi bwyd. Mae'r diffiniad hwn yn cynnwys gweithgareddau sy'n effeithio ar ddiod ac ar fwyd anifeiliaid hefyd.

Mae enghreifftiau o droseddau bwyd yn cynnwys defnyddio bwyd wedi'i ddwyn yn y gadwyn gyflenwi, lladd anghyfreithlon, dargyfeirio bwyd anniogel, amhuro, amnewid neu gam-gynrychioli bwyd, a thwyll dogfennau.

### Gwaith Gorfodi Diweddar

- Aeth swyddogion NFCU gyda Heddlu Dyfed-Powys i fferm yng Nghymru ddydd Mercher 4 Rhagfyr 2024 ac arestio un dyn.
- Mae'r arestiad yn gysylltiedig â phum arestiad arall a wnaed yn Llundain (https://www.food.gov.uk/news-alerts/news/five-arrested-as-part-of-fsa-food-crime-investigation) mewn cysylltiad â chanfod cig y tybir ei fod yn anghyfreithlon ddydd Llun 25 Tachwedd 2024.
- Cafodd y dyn ei gyfweld gan swyddogion NFCU ac mae wedi cael ei ryddhau o dan ymchwiliad.

### 'Smokies'/Cig Defaid neu afr gyda'r croen dal arno

Mae 'smokies' yn fater diogelwch bwyd gan nad ydynt yn cael eu cynhyrchu mewn amodau hylan, ac maen nhw'n anghyfreithlon gan fod y croen dal i fod ar y cig a chan nad oes modd olrhain y cig.

Rydym yn cynghori pobl i osgoi cig defaid a gynhyrchir fel hyn gan y gallai beri risg i iechyd, ac i ddweud wrth eu swyddfa Safonau Masnach leol neu wrthym ni os ydynt yn amau bod cig o'r fath yn cael ei gynhyrchu neu ei werthu

### Beth allwch chi ei wneud?

Mae cysylltiad cryf iawn rhwng dwyn defaid a phrosesu anghyfreithlon, felly rhaid dweud wrth yr heddlu bob tro y caiff anifeiliaid eu dwyn. Mae gan yr Uned berthynas agos gyda'r Uned Troseddau Gwledig Cenedlaethol, a byddan nhw'n dweud wrthym bob tro y caiff da byw ei ddwyn.

Er mwyn lleihau'r risg, sicrhewch bod arferion prynu a gwerthu cyfreithlon yn cael eu dilyn bob tro, a bod modd olrhain anifeiliaid byw trwy'r adeg pan fyddant yn cael eu symud.

### Rhoi gwybod am drosedd bwyd

Gallwch roi gwybod i ni am droseddau bwyd trwy ddefnyddio ein sianeli pwrpasol a chyfrinachol. Mae gennym rif rhadffôn, ffurflen i roi gwybod ar-lein, a chyfeiriad e-bost er mwyn hwyluso'r broses o roi gwybod am unrhyw amheuon o droseddau bwyd.

**Food Crime Confidential** 0800 028 11 80 (0207 276 8787 ar gyfer galwadau a ffonau symudol sydd ddim o'r DU).

**E-bost:** foodcrime@food.gov.uk


**Ffurflen Ar-lein:** Rhoi gwybod am droseddau bwyd | Asiantaeth Safonau Bwyd

## Prosiect Peilot Cylch Gwella Iechyd Anifeiliaid

Mae Cynhyrchwyr Cig Oen a Chig Eidion Cymru wedi bod yn rheoli Prosiect Peilot Cylch Gwella Iechyd Anifeiliaid a ariennir gan Lywodraeth Cymru. Y nod yw sicrhau bod modd cyflawni'r prosiect a bod modd ei ehangu pan gaiff ei gyflwyno fel Gweithred Gyffredinol o'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy yng Nghymru yn 2026. Bydd rhaid i ffermwyr da byw weithio gyda'u milfeddyg er mwyn nodi maes o ddiddordeb o fewn eu menter, un lle gellid gwneud gwelliant o ran iechyd anifeiliaid a chynhyrchiant. Mae 60 o filfeddygon o bob cwr o Gymru wedi bod yn rhan o'r prosiect, ynghyd â 180 o ffermwyr da byw a 5 mentor prosiect milfeddygol. Hyd yn hyn, mae 80% o'r ffermwyr sydd wedi bod yn rhan o'r Prosiect Peilot Cylch Gwella Iechyd Anifeiliaid yn dweud ei fod yn hynod o werthfawr, a bod y Cylch wedi newid eu meddyliau er gwell o ran ceisio cyngor eu milfeddyg wrth gynllunio ar gyfer iechyd anifeiliaid.

Rhagor o Wybodaeth:
https://www.llyw.cymru/y-cynllun-ffermio-cynaliadwy-amlinelliad-or-cynllun-2024-html#158389

Llywodraeth Cymru
Welsh Government



**WLBP – Cyfryngau Cymdeithasol**

@WLBProducers

Welsh Lamb and Beef Producers
Cynhyrchwyr Cig Oen Ac Eidion Cymru

WLBProducers

CAFC RWAS

WLBP | FARM ASSURED WELSH LIVESTOCK | THE WELSH ORGANIC SCHEME | QWFC





**Byddwn ni yn y Sioe Frenhinol**

**Galwch draw am sgwrs!**

## DEWCH I'N GWELD NI YN ADEILAD WAOS GER Y PRIF GYLCH




## Meddalwedd Cofnodion Fferm WLBP ar-lein ar gael i aelodau WLBP (FAWL, Cynllun Llaeth, ac Organig Cymru)



- Modd cysylltu gyda BCMS a EID Cymru
- Cofnodion diadell a buches
- Meddyginiaethau a thriniaethau (gan gynnwys casglu defnydd gwrthfiotig)
- Diweddaru'r meddalwedd yn digwydd yn awtomatig
- Lleihau gwaith papur
- Llyfr Rheolaeth FAWL
- Cynllun Iechyd
- Cefnogaeth am ddim



Cofrestrwch ar: https://farmrecords.wlbp.co.uk/WLBP/Default.aspx

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â: **01970 636688** neu **healthplan@wlbp.co.uk**